Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 25 Hydref 2013




*Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin;*
*deisyfwch felly ar Arglwydd y cynhaeaf anfon*
*gweithwyr i'w gynhaeaf. (Mathew 9:37–8)*

*Annwyl ffrindiau,*

Drosodd a thro yn y Testament Newydd cawn ein hatgoffa mai cenhadon a thystion ydym i'r Iesu yn y byd. 'Cenhadon dros Grist ydym ni,' ys dywedodd yr Apostol Paul (2 Corinthiaid 5:20). Diau mai argyhoeddiad o'r fath oedd y tu ôl i benderfyniad y Methodistiaid Calfinaidd i anfon cenhadon allan i wledydd pell megis gogledd-ddwyrain yr India yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda Thomas Jones o'r Berriw y cyntaf ohonynt. Er y bu'n rhaid rhoi terfyn ar yr arferiad hwn ymhen amser, o leiaf mewn perthynas â'r India, mae gennym gyfrifoldeb o hyd dros rannu'r Efengyl lle rydym yn byw ac ymhlith y bobl yr ydym yn ymwneud â hwy o ddydd i ddydd. Mae'r eglwys o hyd, lle bynnag y mae, mewn sefyllfa genhadol.

Yn Efengyl Mathew cawn gofnod o'r hyn sydd ei angen arnom i gyflawni'r dasg:

> Yr oedd Iesu'n mynd o amgylch yr holl drefi a'r pentrefi, dan ddysgu yn eu synagogau hwy, a phregethu efengyl y deyrnas, ac iacháu pob afiechyd a phob llesgedd. A phan welodd ef y tyrfaoedd, tosturiodd wrthynt am eu bod yn flinderus a diymadferth fel defaid heb fugail. (Mathew 9:35–6)

Mae'n amlwg ddigon, felly, fod gweinidogaeth Iesu yn cael ei chymell gan ei gariad anhunanol, a'i fod yn awyddus i chwilio a cheisio'r bobl hynny yr oedd taer angen cymorth, gobaith ac ymwared arnynt. I'r Iesu, nid torfeydd oedd y bobl a'i dilynai, ond unigolion a chanddynt anghenion dwys a photensial aruthrol. Gwelodd Iesu hwy mewn modd nad oedd y person cyffredin yn medru eu gweld. Edrychodd o dan yr wyneb, y tu ôl i'w lefel incwm, a thu ôl i'r mwgwd, ac fe'i gwelodd hwy fel ag yr oeddent, yn rhai blinderus a diymadferth. Gwelodd hwy fel pobl a oedd yn cael eu haflonyddu gan y llywodraeth Rufeinig, gan draddodiadau ac arferion Iddewig, a chan anghyfiawnderau a thlodi llethol. Gwelodd hwy hefyd fel rhai oedd wedi'u sathru a'u gormesu ac yn gwbl ddiymgeledd. Bu pob ymgais o eiddo'r bobl i ddiwygio'r gyfundrefn gymdeithasol greulon a gormesol yn gwbl ofer. Roeddent heb gyfeiriad ac arweiniad, fel defaid heb fugail.

Yr un fyddai ymarweddiad Iesu tuag at y bobloedd heddiw, boed mewn dinasoedd fel Shillong, mewn trefi fel Aberystwyth, neu bentrefi fel Bow Steet. Nid yw ei agwedd wedi newid dim gyda threigl amser. Mae ei ddealltwriaeth a'i dosturi yn pontio'r amser a'r pellter rhwng Galilea'r hen fyd a Meghalaya neu Gymru fodern. O, siŵr iawn, mae rhai o'r manylion wedi newid, ond mae anghenion sylfaenol cymdeithas yn aros yr un – ac felly hefyd dosturi'r Iesu. Pan wêl Iesu'r tyrfaoedd yn crochlefain eu cymeradwyaeth yn stadiwm clwb pêl-droed Lajong yn Shillong, neu'n chwilio am fwyd ar silffoedd gwag y farchnad yn Affrica, neu'n brwydro i oresgyn llifogydd yn ne-ddwyrain Asia, neu'n dioddef oherwydd gormes rhyfel yn Syria, neu'n cael eu denu gan anffyddiaeth a seciwlariaeth yng Nghymru, yr un yw ei sensitifrwydd a'i ofal.

Ond er i'r Iesu brofi llwyddiant diamheuol yn ystod ei weinidogaeth yng Ngalilea, roedd yr ymateb i'w ddysgeidiaeth mor aruthrol fawr fel nad oedd modd iddo ddangos gofal a thosturi dros bawb. Roedd angen cyd-weithwyr arno. Felly, yng nghanol ei lwyddiant apeliodd yn daer am ragor o ddisgyblion:

> Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin; deisyfwch felly ar Arglwydd y cynhaeaf anfon gweithwyr i'w gynhaeaf. (Mathew 9:37–8)

Mae'r Iesu yn ein galw ninnau heddiw i fynd ynghyd â'i waith, i weddïo ac i ennill eraill i weithio ochr yn ochr ag ef mewn gwasanaeth. Cofiaf yn iawn pan oeddwn allan yn Shillong yn 2007 i mi glywed am gymuned fawr o bobl a oedd wedi dod i fyw yno o Bangladesh, ac fel yr oedd gweithiwr Cristnogol o'r eglwysi Presbyteraidd yn byw ac yn cenhadu yn eu plith. Yng Nghymru, fel yn Shillong, mae'r anghenion yn fawr. Unwaith eto, mae angen tosturi ar y tyrfaoedd. Unwaith eto, mae yna botensial am gynhaeaf mawr. Ac unwaith eto, mae prinder gweithwyr. Ein cyfrifoldeb ninnau yw ymateb i'r alwad i weithio dros yr Un a gyflawnodd yr eitha drosom ar groes Calfaria.

Yr eiddoch yng Nghrist,

*Wyn Morris* (Bugail)

*(Mae'r neges hon yn seiliedig ar anerchiad y Bugail gerbron cynulleidfa oedd yn cynnwys gweinidogion ac arweinwyr eglwysig o Henaduriaeth Laitumkhrah, Synod Khasi-Jaintia, yng Nghapel y Garn, 17 Medi 2013)*

# Tudalen y Plant



DARLLENWCH
Luc 5: 27-32

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Dilyn Iesu**

## Stori 4 Pobl y cwrddodd Iesu â nhw – Mathew

Roedd Lefi, a oedd hefyd yn cael ei alw'n Mathew, yn ddyn prysur iawn. Roedd yn casglu trethi gan bobl y dref. Doedd neb yn ei hoffi am ei fod yn gweithio i'r Rhufeiniaid. Efallai ei fod yn cymryd gormod o arian wrth bobl weithiau.

Un diwrnod, daeth Iesu i'r dref. Dywedodd wrth Mathew "Dilyn fi!"

Cododd Mathew ar unwaith, gadael ei waith a dilyn Iesu.



**Pwy ddilynodd Iesu?**

**M __ __ __ __ __.**

**Beth ddywedodd Iesu wrtho?**

D __ __ __ __
F __.

Dewisodd Iesu rai ffrindiau arbennig i'w helpu i wneud ei waith. Rhowch gylch am enwau rhai ohonyn nhw yn y grid:

ANDREAS IOAN
SIMON PEDR IAGO
PHILIP TOMOS

Mae Iesu am i chithau fod yn ffrind iddo hefyd.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | F | R | M | R | A | D | P | T |
| R | M | K | O | D | N | Q | P | Z |
| V | T | G | L | E | D | F | I | T |
| M | A | O | K | P | R | T | L | D |
| I | L | G | M | N | E | M | I | Z |
| Y | K | J | K | O | A | M | H | M |
| B | M | C | Y | M | S | D | P | M |
| N | L | M | B | I | I | O | A | N |
| F | R | Q | B | S | H | G | L | L |

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Hydref.**

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i Aneurin Rowlands, Capel Madog, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*

| | |
|---|---|
| 5 Hydref | Cyfarfod Blynyddol Chwiorydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro yng Nghapel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid, am 2.30 o'r gloch<br>I annerch: Siân Edwards, Coleg y Bala |
| 7 Hydref | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>yn festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 12 Hydref | 'O Lan i Lan': Taith Gerdded yr Ofalaeth, dan arweiniad Carys a Dilwyn Jones. Taith 5 milltir o Langelynnin i Lanegryn, Meirionnydd. Cwrdd am 10.30 a.m. yn y gilfan barcio ger Eglwys Llangelynnin. |
| 13 Hydref | Oedfa Ddiolchgarwch yr Ofalaeth<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at Gartref Tregerddan |
| 15 Rhagfyr | Oedfa Nadolig Plant yr Ofalaeth<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 25 Rhagfyr | Oedfa gymun deuluol yng Nghapel y Garn am 9 o'r gloch |
| 31 Rhagfyr | Gwylnos i groesawu'r Flwyddyn Newydd am 11.30 p.m. dan arweiniad y Bugail |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn: www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## *CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol) – Sglods ar y Swnd*



Dathlwyd diwedd tymor CIC ar draeth y Borth nos Iau, 18 Gorffennaf. Gyda'r haul yn machlud yn llachar mwynhawyd chwaraeon a sglodion.



Hwn oedd y gweithgaredd olaf i Eleri Barder ei drefnu gan ei bod hi a'i gŵr, Joel, bellach wedi ymgartrefu ym Mryste, lle mae Joel ar fin dechrau cwrs i'w gymhwyso i offeiriadaeth yr Eglwys Anglicanaidd. Diolchwn i Eleri am ei hymroddiad a'i hegni. Gwerthfawrogwn yn fawr ei chyfraniad arbennig i Achos Crist ymhlith ieuenctid y fro a dymunwn bob bendith, llawenydd a llewych iddi hi a Joel i'r dyfodol.

*Trip Ysgol Sul Unedig y Garn a'r Noddfa*



Ddydd Sul, 7 Gorffennaf, daeth teuluoedd ysgol Sul y Garn a'r Noddfa ynghyd i fwynhau'r trip blynyddol. Wedi'r anturiaethau ar y don y llynedd penderfynwyd cadw ein traed ar dir sych a sefydlog eleni, ac felly tua chanolfan chwarae Quackers yn y Bontnewydd ar Wy yr aethom yn gynffon hir o geir. Llwyddwyd i drefnu tywydd arbennig o dda ar gyfer y diwrnod, ac wedi bore prysur yn neidio a dringo a llithro (yn blant ac ambell oedolyn) cawsom ginio blasus cyn dianc allan i'r heulwen am ragor o chwarae. Erbyn canol y prynhawn roedd pawb wedi cael ei siâr o liw haul ac roedd gêm o dennis eithaf pwysig yn cael ei chwarae draw yn Wimbledon, felly fe drodd pawb am adre wedi cael diwrnod wrth eu bodd. Diolch yn fawr i'r ddwy ysgol Sul a hefyd i bawb fu wrthi'n trefnu. Trip gwerth chweil!

*Nia Peris*



***Oedfa Haf yr Ofalaeth***

Pnawn Sul, 14 Gorffennaf, croesawyd cyfeillion o ardal Corwen oedd ar bererindod i'r ardal, dan arweiniad y Parch T Leonard Williams, i ymuno â ni yn yr oedfa haf flynyddol. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Ms Llinos Jones a'r Parch T L Williams, a chafwyd anerchiad pwrpasol gan y Parch Wyn Morris ar thema profiadau'r môr a'r mynydd. Gwnaed casgliad tuag at Ambiwlans Awyr Cymru, a pharatowyd te i'r ymwelwyr yn y festri yn dilyn y gwasanaeth gan Chwiorydd y Garn.








Gweinidogion ac arweinwyr eglwysig o Laikumkhrah, Shillong, yr India, yn canu cyfieithiad o'r emyn 'Dyma gariad fel y moroedd' yn eu hiaith eu hunain ar eu hymweliad â Chapel y Garn ddydd Mawrth, 17 Medi. Cynhaliwyd gwasanaeth byr yn eu cwmni, dan arweiniad y Bugail, a pharatowyd lluniaeth ar eu cyfer gan y Chwiorydd.

## *Pererindod Seion*

Wedi gorffen dathliadau Eisteddfod Sir Ddinbych a'r cyffiniau daeth cyfle i aelodau Seion a nifer o ffrindiau gychwyn ar eu pererindod flynyddol brynhawn Sul, 11 Awst. Ymgynullodd pawb yn eu ceir wrth y capel am hanner dydd i dderbyn cyfarwyddiadau gan John Gwynn Jones, y trefnydd am eleni. Taith ddigon cyfarwydd i ddechrau i ben Trichrug ac wedi cyrraedd y copa dyma John yn agor clwyd gyfrinachol iawn i fynd â ni i ben un o'r tri chrug. Yno i'n cyfarfod roedd y Parchedig Stephen Morgan ac arhosodd ef gyda ni ar hyd y prynhawn i adrodd hanes y mannau arbennig iawn y buom yn ymweld â hwy. Roedd yr olygfa o ben y Crug hynafol yn cwmpasu wyth sir a'r Crugiau eu hunain yn dyddio 'nôl i'r Oes Efydd ac yn cael eu gwarchod gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bu John yn ddygn iawn yn perswadio'r awdurdod i ryddhau'r allwedd mynediad i ni a mawr ddiolch iddo am ei ddycnwch.

Disgyn o'r uchelfannau a wnaethom heibio i Gwrthwynt Uchaf, lle bu Iago Trichrug yn byw, a'r Gelli, lle bu Dylan Thomas a'i wraig yn byw am gyfnod. Cyrraedd Eglwys Trefilan tu ôl i'r ysgol ac olion Castell Ilan gerllaw. Roedd ffenestri lliw hardd wedi eu gosod yno o eglwys Nantcwnlle a'r eglwys ei hun wedi ei hadnewyddu yn ddiweddar ac yn glod i'r plwyfolion.





Cynhaliwyd gwasanaeth yn yr eglwys: Swyn ac Eos yn canu, triawd gan Olwen, Anwen ac Eleri, Elen ac Ina yn darllen, a John Tudno yn canu emyn o waith Iago Trichrug, 'Cyduned Seion lân mewn cân bereiddia'i blas'.

Gyrru wedyn ar hyd un o ffyrdd culion Ceredigion i fferm deuluol Jenkins Pentrefin, cartref y bardd Dan Jenkins, awdur *Cerddi Llancrwys* a chysylliad teuluol â Joseph Jenkins y Swagman, yr ysgrifennwyd ei hanes gan William Evans yn *Diary of a Welsh Swagman* a Bethan Phillips yn *Rhwng Dau Fyd*.

Oedi wrth Plas Abermeurig, cyn-gartref y gantores Angela Rogers Lewis, a chapel Abermeurig, achos hynaf Methodistiaeth a chartref y Parch John Evans, yr hanesydd cyfundebol. Saif y capel mewn llecyn tangnefeddus a hardd, ond mae bellach wedi cau ers rhyw ddwy flynedd ac ar werth. Ymlaen i Blasty Llanllŷr ac ymweld â'r ardd yno. Cawsom groeso cynnes gan y deiliaid presennol, Mr a Mrs Gee, hi yn ferch i'r diweddar Gapten a Mrs Hext Lewis, a chyfle i grwydro'n hamddenol drwy'r ardd eang ac amrywiol iawn ei chynllun a dylanwad Eidalaidd arni.

Cafwyd croeso mawr yn Jibinc Aberaeron a the blasus ar ddiwedd y dydd cyn troi am adre. Diolch i Rhian, Dai, Swyn, Eos a Celt.

## ***Pen-llwyn***

Fore Sul, 8 Medi, cynhaliwyd oedfa deuluol yng Nghapel Pen-llwyn dan arweiniad y Gweinidog. Cyhoeddwyd emynau, darllenwyd a gweddïwyd gan blant yr ysgol Sul, sef Alaw a Llŷr Evans, Haf Evans, Owen Evans, Elen Jenkins, Nannon, Luned a Tomos Jones, Megan ac Efanna Lewis, Tomos Watson a Ffion Williams. Cafwyd anerchiad pwrpasol i'r plant gan y gweinidog a thrwy gyfrwng sleidiau PowerPoint llwyddwyd i ddal sylw pawb wrth iddo gyflwyno hanes Joseff. Wedi'r rhannau arweiniol, aeth y plant i'r festri i wneud gweithgareddau oedd yn gysylltiedig â hanes Joseff a maddeuant. Braf oedd gweld Ania a Begw hefyd yn ymuno â'r plant hŷn.

Yna, anerchwyd gweddill y gynulleidfa gan y gweinidog. Roedd Joseff wedi maddau i'w frodyr am yr hyn a wnaethant iddo. Mae'n gofyn am fawredd i faddau. Soniodd fel yr oedd Iesu Grist ar hyd ei oes yn pwysleisio maddeuant. Cofiwn am eiriau Iesu ar y Groes, 'O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud.' (Luc 23:34) Oedd, roedd wedi maddau i Caiaffas, Herod a Pheilat. Cofiwn am eiriau'r Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd: 'Gwyn eu byd y rhai trugarog, oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd' (Mathew 5:7) ac yna yng Ngweddi'r Arglwydd, 'Maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr'. Cyfeiriodd at Marian Partington a fu'n ymweld ag Aberystwyth. Fe lofruddiwyd Lucy, chwaer Marian, gan Fred a Rosemary West ond roedd wedi maddau iddynt. Mae angen gwroldeb mawr i wneud hyn oherwydd eisiau dial yr ydym. Cofiwn i Pedr ofyn i Iesu unwaith: 'Arglwydd, pa sawl gwaith y mae fy mrawd i bechu yn fy erbyn a minnau i faddau iddo? Ai hyd seithwaith?' (Mathew 18:21) Cafodd Pedr sioc o glywed ateb Iesu Grist: 'hyd saith deg seithwaith'. Does dim terfyn ar faddeuant. Ydy, mae'n haws siarad na gwneud ac yn haws estyn na derbyn, ond mae'n rhaid cofio bod maddeuant i Gristnogion yn un o elfennau ein ffydd. Os ydych am fod yn hapus am un foment, dewiswch ddial ond os ydych am fod yn hapus am byth, yna dewiswch faddeuant. Yn ei gerdd 'Pa beth yw dyn?' ateb Waldo Williams i'w gwestiwn ei hun 'Beth yw maddau?' yw 'Cael ffordd trwy'r drain / At ochr hen elyn.'

Ni ellir gorfodi neb i dderbyn na chynnig maddeuant. Ond cofiwn fod Joseff ac Iesu Grist wedi maddau. Gofynnwyd i ni fel cynulleidfa ystyried a oedd rhywbeth yn ein calonnau ni i'w faddau.

| Cynhelir Gwasanaeth Nadolig plant yr ysgol Sul ddydd Sul, 22 Rhagfyr |
| --- |

## Hydref

*Blaenor y Mis: Dewi G Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: D Bryn Lloyd / D Elystan-Morgan*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*
*(ac eithrio ar Sul Diolchgarwch)*

| | |
|---|---|
| 2 | Cwrdd Diolchgarwch Cymdeithas Chwiorydd y Garn<br>am 2.30 o'r gloch dan ofal y Barch. Judith Morris<br>Gŵr gwadd: Parch. Andy Herrick – 'Stordy'r Jiwbilî' |
| 5 | Cyfarfod Blynyddol Chwiorydd yr Henaduriaeth<br>Capel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid, am 2.30 p.m.<br>I annerch: Siân Edwards, Coleg y Bala |
| **6** | Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa<br>Oedfa'r hwyr yn y Garn: Parch Ddr John Tudno Williams |
| 7 | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| **13** | Oedfa ddiolchgarwch yr Ofalaeth am 10 o'r gloch<br>yng Nghapel y Garn<br>Casgliad tuag at Gartref Tregerddan |
| 18 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Dyddiau olaf Owain Glyndŵr'<br>Yr Athro Gruffydd Aled Williams |
| **20** | Oedfa 'Croeso'n ôl' a chymun<br>dan arweiniad y Bugail am 10 o'r gloch<br>Oedfa dan arweiniad Mr Huw Roderick am 5 o'r gloch |
| 24 | Cwrdd Diolchgarwch Bethlehem, Llandre<br>Pregethir gan y Parch J E Wynne Davies, Aberystwyth |
| **27** | Parch Adrian Williams |

Llongyfarchiadau calonnog:

i Vernon a Dilys Jones ar enedigaeth wyres, Elan Ceiro, merch fach i Osian a Bethan, a chwaer fach i Gruff, Ifan a Rhys;

i Rhian Jones-Steele ar enedigaeth dwy wyres: Lili Haf, merch Anwen a Mike, a Seren Dorothy, merch Nia a Huw;

i Vernon ar ennill y wobr gyntaf am soned ar y testun 'Cloddiau' yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau

i rai o'r ieuenctid ar eu llwyddiant yn eu arholiadau, a dymuniadau gorau i'r rhai sy'n newid ysgol neu sy'n symud ymlaen i sefydliadau addysg bellach.

## *Capel y Garn – Y Ffordd Ymlaen*

Yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Eglwys, a gynhaliwyd nos Fercher, 18 Medi, cafwyd cyflwyniad i swyddogaeth y pwyllgor gan Dewi G Hughes. Etholwyd Wynne Melville Jones yn gadeirydd y pwyllgor ac Eddie Jenkins yn ysgrifennydd.

Penderfynwyd rhannu aelodau'r pwyllgor yn dri phanel i ystyried gwahanol agweddau ar fywyd yr eglwys. Bydd y grwpiau hyn yn adrodd i'r pwyllgor llawn ym mis Ionawr.

Aelodau'r Pwyllgor Eglwys yw:

Y Parch Wyn Morris
Llinos Dafis
Gaenor Hall
Shân Hayward
Dewi G Hughes
Marian B Hughes
Erddyn James
Eddie Jenkins
Alan W Jones
Carwen H Jones
Delyth Jones
Vernon Jones
Wynne Melville Jones
Kathleen Lewis
D Bryn Lloyd
Elystan Morgan
Rhodri Ll Morgan
Llio Penri
Bryn Roberts
Elen Roberts
Janet Roberts
Mary Thomas

## Tachwedd

*Blaenor y Mis: D Elystan-Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**3** Dr Rhidian Griffiths
Aelodau'r Noddfa yn y Garn

6 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Manon Curley yn sôn am ei gwaith gyda'r Heddlu

**10** Mr Arwyn Pierce

15 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Noson yng nghwmni'r Dr Mihangel Morgan

**17** Bugail
Oedfa gymun yn y bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

22 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch

**24** Parch Dr Terry Edwards

30 Bore Coffi dan ofal y Chwiorydd
Festri'r Garn, 10–12 o'r gloch

***Te a Choffi***



Ers chwarter canrif bellach, bu'n arferiad gennym gynnig paned a sgwrs wedi oedfa'r bore; ond erbyn hyn mae nifer ein gwirfoddolwyr ffyddlon yn prinhau. Felly, byddwn yn falch iawn o glywed gan unrhyw un sydd yn barod i helpu efo paratoi a gweini, tua unwaith y mis, yn ystod y flwyddyn nesaf. Diolch.
Marian Jenkins, Eryl (828147)

## Rhagfyr

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

**1** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa

Oedfa'r hwyr dan arweiniad Mr Walford Gealy

4 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Mair a Rhian Benjamin: 'Gweithgareddau Nadoligaidd'

**8** Parch John Roberts

Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog

12 Gwasanaeth Nadolig Ysgol Rhydypennau
yng Nghapel y Garn am 7 o'r gloch

13 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Dathlu'r Nadolig gyda Trefor ac Eleri

**15** Oedfa Nadolig Plant yr Ofalaeth am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at yr ysgol Sul

**22** Mr Lyndon Lloyd

Gwasanaeth Nadolig arbennig
dan arweiniad y Bugail

25 Oedfa gymun deuluol am 9 o'r gloch
dan arweiniad y Bugail

**29** Mr Andras Iago

31 Gwylnos i groesawu'r Flwyddyn Newydd
dan arweiniad y Bugail am 11.30 p.m.

## *Cysegru Cofebau Capel y Gerlan yn Eglwys St Mathew, y Borth*



Gydag uno Capel y Gerlan â Chapel y Garn, penderfynwyd y dylid trosglwyddo'r cofebau i'r rhai a syrthiodd yn y ddau Ryfel Byd i Eglwys St Mathew, y Borth, er diogelu'r goffadwriaeth.



Cysegrwyd y pedair cofeb, rhai oedd wedi cael eu gosod yn y Gerlan wedi cau Capel Libanus, gan yr Archddiacon, yr Hybarch Ddr W. A. Strange mewn gwasanaeth arbennig a phwrpasol a gynhaliwyd dan lywyddiaeth y Barch. Cecilia Charles ddydd Mercher, 28 Awst. Roedd rhai o gyn-aelodau'r Gerlan yn bresennol, gan gynnwys y cyn-fugail, Y Parch Elwyn Pryse, a'r cyn-drysorydd, y Bnr John Rees.

## *Cystadleuaeth Cacen y Beibl*

Rwyf am roi cyfres o adnodau i chi, a'r mesuriadau. Mae angen i chi ganfod yr adnod, gweld pa gynhwysyn sydd yn cael ei grybwyll yn yr adnod a dilyn y cyfarwyddiadau. Mae rhai adnodau'n cryptig, ac angen meddwl. Mae unedau'r mesuriadau yn rhoi ychydig o gliwiau! Pob lwc a mwynhewch y coginio. Gall y teulu oll gymryd rhan yn y gystadleuaeth.

**CYNHWYSION**

Tun cacen maint 9–10 modfedd

200g Barnwyr 5:25, rhan olaf yr adnod

250g Jeremeia 6:20



3 llwy fwrdd 1 Samuel 14:25

4 o Jeremeia 17:11

170g 1 Samuel 30:12, yr ail yn y rhestr

170g Nahum 3:12

100g Numeri 17:8

500g 1 Brenhinoedd 4:22

1 llwy de 2 Cronicl 9:9

1 llwy de Lefiticus 2:13

2 llwy de Amos 4:5

5 llwy fwrdd Barnwyr 4:19, yr ail yn y rhestr

Irwch eich tun cacen ag ychydig o fenyn. Gallwch hefyd ddefnyddio papur memrwn (parchment paper) a fydd yn help i gadw'r gacen rhag llosgi a sychu'n ormodol, gan adael i'r gacen goginio ar wres is ac am amser hirach.

Malwch Nahum 3 yn fân.

Meddalwch a malwch Numeri 17:8 yn fân.

Mewn powlen gymysgu fawr, rydych angen hufennu Barnwyr 5, Jeremeia 6 ac 1 Samuel 14.

Ychwanegwch Jeremeia 17 fesul un – curwch y cyfan.

Ychwanegwch 1 Samuel 30, Nahum 3 a hanner Numeri 17. Curwch y cyfan nes bod popeth wedi'i gymysgu'n iawn.

Mewn powlen arall, ychydig mwy o faint na'r un flaenorol, gogrwch 1 Brenhinoedd 4, 2 Cronicl 9, Lefiticus 2 ac Amos 4. Gwnewch dwll yng nghanol y gymysgedd a thywallt cynnwys y fowlen gyntaf i'r canol, felly byddwch yn tywallt y gymysgedd wlyb i ganol y gymysgedd sych. Cymysgwch y cyfan.

Yn olaf, ychwanegwch Barnwyr 4 i gymysgedd y gacen. Fe ddylai'r gymysgedd fod yn eithaf gwlyb, ac yn disgyn yn weddol rwydd oddi ar eich llwy bren.

Tywalltwch y cyfan i'r tun. Rhowch weddill Numeri 17 dros y cyfan, gan eu pwyso'n ysgafn fel eu bod yn rhannol yn y gymysgedd.

Rhowch y gacen yn y popty ar tua 160 °C am oddeutu 90 munud, neu'n hirach, efallai, nes ei bod yn barod.

Er mwyn gweld a yw'r gacen yn barod, rhowch gyllell yn ei chanol. Os daw allan yn lân, mae'r gacen yn barod. Os bydd tameidiau o'r gacen arni, rhowch y gacen yn ôl am ychydig.

Diolch i Mrs Dwysli Peleg-Williams am y rysáit difyr hwn.

Y gystadleuaeth yw datrys y cliwiau. Bydd angen i chi roi'r atebion mewn amlen gyda ffugenw'r cystadleuydd / cystadleuwyr yn unig arni (gellir rhoi'r enw cywir mewn amlen arall, dan sêl) i olygyddion 'Gair o'r Garn' neu'r Gweinidog erbyn **9 Hydref**.

Bydd enw'r enillydd yn cael ei gyhoeddi yng Ngwasanaeth Diolchgarwch yr Ofalaeth fore Sul, 13 Hydref.

### *Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth*

Cynhelir yr astudiaeth yn wythnosol yn festri'r Garn, dan arweiniad y Gweinidog, am 2 o'r gloch ar brynhawn Mawrth, gan amlaf. Bydd y grŵp yn defnyddio'r gyfrol *Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn* (addas. Meirion Morris) yn sail i'r astudiaeth. Croeso cynnes i unrhyw un droi i mewn.

## *Taith Flynyddol Capel Rehoboth*

Ardal Wrecsam oedd cyrchfan taith Capel Rehoboth eleni, a hynny ar ddydd Sadwrn braf, 14 Medi. Cyrhaeddwyd Wrecsam am 11 o'r gloch i gwrdd â'n tywysydd am y dydd, Aled Lewis Evans.

Yn gyntaf, aethom i'r Amgueddfa i weld Mantell Aur yr Wyddgrug sydd wedi cael ei harddangos yno yn ystod yr haf. Mantell aur seremonïol unigryw a wnaed tua 3,700 o flynyddoedd yn ôl, ar ddechrau'r Oes Efydd, yw Mantell yr Wyddgrug, ac fe'i darganfuwyd mewn bedd wedi'i hamgylchynu gan gerrig yn 1833. Hwn oedd y diwrnod olaf i'w gweld yn Wrecsam cyn iddi gael ei dychwelyd i'r Amgueddfa Brydeinig yn Llundain, felly roedd pob un wrth ei fodd i gael y cyfle i'w gweld.

Ymlaen wedyn i weld Eglwys San Silin. Mae tŵr yr Eglwys yn cynnwys deg o glychau ac yn un o saith rhyfeddod Cymru. Mae llawer o nodweddion diddorol y tu mewn i'r eglwys hefyd, yn cynnwys y ddarllenfa ar ffurf eryr pres a roddwyd i'r Eglwys yn 1524, a'r to sy'n cynnwys 16 o angylion yn canu neu'n canu offeryn.

Cafwyd bwyd hyfryd ym mwyty Siop Fferm Bellis yn Holt cyn parhau â'r daith. Arhoswyd am ennyd i weld Cofeb Trychineb Gresffordd, sef hen olwyn o'r pwll glo lle lladdwyd 266 o ddynion a bechgyn ym mis Medi 1934. Codwyd y gofeb yn 1982. Yna, aethom i Fangor Is-y-coed i weld eglwys hynafol Sant Dunawd a adeiladwyd ar safle hen fynachlog, gyda'r gangell oddi mewn i'r Eglwys yn dyddio'n ôl i 1300. Yng nghanolfan yr ymwelwyr gellir clywed mynach (gyda llais Aled) yn adrodd hanes bywyd ym Mangor Is-y-coed yn y seithfed ganrif.

Teithiwyd yn ôl i Wrecsam drwy fynd heibio Rhosllannerchrugog, pentref a dyfodd yn ystod y ddeunawfed ganrif yn sgil y gweithfeydd glo lleol. Gwelwyd y 'Stiwt' a godwyd gan arian prin y mwynwyr yn 1926, ac fe'i defnyddir heddiw fel canolfan i gynnal cyngherddau a lle i'r gymuned gymdeithasu. Codwyd nifer o enwogion yn y Rhos, a gwelwyd Arwelfa, sef cartref y cyfansoddwr Arwel Hughes. Mae yno nifer o gapeli hardd, ac mae'r llinell 'Beibl a rhaw i bobl y Rhos' yn dangos pwysigrwydd y capeli a'r gwaith glo i dreftadaeth y pentref.

Wedi cyrraedd yn ôl i Wrecsam, ffarweliwyd ag Aled a diolchodd Bob Williams yn gynnes iddo am ddiwrnod arbennig iawn. Arhoswyd yn Llangollen am ychydig, yna teithio trwy Dywyn ac Aberdyfi i gyrraedd gwesty Glan-yr-afon ym Mhennal i gael pryd o fwyd ardderchog i gloi'r diwrnod. Diolch yn fawr i Mai a John Leeding am drefnu'r daith, ac i John am yrru'r bws.

### *Taith Gerdded yr Ofalaeth – 12 Hydref*

### *‘O Lan i Lan’: o Langelynnin i Lanegryn, Meirionnydd*

**dan arweiniad Carys a Dilwyn Jones**

Cwrdd am 10.30 a.m. yn y gilfan barcio ger Eglwys Llangelynnin, lle gellir gadael y ceir. Bydd y daith yn cychwyn ac yn gorffen yno. Taith 5 milltir o hyd; bydd ychydig o ddringo ar y dechrau, ond mae’r daith yn weddol wastad ar y cyfan. Croeso i bawb! Am ragor o fanylion, cysylltwch â Carys, rhif ffôn 07745 434388




Aelodau Rehoboth y tu allan i Eglwys Sant Dunawd, Bangor Is-y-coed, gyda’u tywysydd, Aled Lewis Evans

### *Cyfarchion arbennig*

Llongyfarchiadau i Mrs Enid Williams, Cartref Tregerddan (Brondirion, Taliesin gynt), ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 100 oed ar 21 Medi 2013. Pob dymuniad da iddi oddi wrth holl aelodau Rehoboth.

***Llythyr o Oslo***



'Daw Awst, daw nos' sy'n dod i'r meddwl yma yn Oslo wrth i'r mis hwn ddirwyn i ben. Rwyf ar fin gadael Norwy a dychwelyd i Gapel Madog ar ôl bod yn gweithio yma am flwyddyn. Mae naws hydrefol yn Oslo erbyn hyn, a'r dyddiau'n byrhau. Does dim rhyfedd fod y bobl yma'n cymryd eu gwyliau ym mis Mehefin a mis Gorffennaf pan fydd yr haf ar ei anterth a'r dyddiau'n hir. Mae bod allan yn yr awyr agored yn bwysig iawn i'r brodorion – maen nhw'n dyheu am yr haul a'r fitamin D, ac yn manteisio ar bob cyfle i dynnu eu dillad, i dorheulo ar do neu ar draeth. Mae pob rhan o fjord Oslo yn agored i nofwyr, hyd yn oed yn y ddinas ei hun – ger y Tŷ Opera, neu ger Amgueddfa Gelf Astrup Fearnley sydd newydd agor ar ben pellaf y cei yn Aker Brygge. Ac mae traethau bendigedig draw ar yr ynysoedd, a badau'r ddinas yn cyrchu yno'n aml. Mae 'nofio gwyllt' hefyd yn hen arfer yn y llynnoedd niferus sydd o fewn cyrraedd hawdd i'r ddinas: mae gwefan Oslo yn cyhoeddi tymheredd y dŵr yn y gwahanol lefydd hyn, ac yn dweud beth yw lefelau cyfredol y bacteria!



Ni welais erioed y fath raen ar bobl: anaml y gwelwch chi rywun tew neu slebog, ac mae rhedeg a chadw'n heini'n rhan o fywyd beunyddiol yr ifainc a'r canol oed fel ei gilydd. Sylwais fod bwydydd sy'n cynnwys llawer o fraster a siwgr yn ddrud iawn yn y siopau – bar bach o siocled Freia (y brand brodorol) yn costio tua £1.60, a chacen hufen, fel y *cream-slice* 'Napoleon' o'r United Bakeries, y pobwyr gorau, yn agos i £4.00. Mae bwyd yn ddrud yma, ond yn fwy rhesymol o lawer os ewch i'r stondinau ffrwythau a llysiau a'r marchnadoedd cig halal sydd yn ardal Grønland, i'r dwyrain o'r orsaf ganol, Oslo S. Mae'r rhan fwyaf o'r siopau – gan gynnwys yr archfarchnadoedd – ar gau ar y Sul. Ni chewch brynu gwin – na dim sydd dros 4.75% *proof* – ond mewn siopau arbennig (*Vinmonopolet*) wedi'u rhedeg gan y llywodraeth. Mae'r rhain yn cau am 6.00 yr hwyr, ac am 3.00 brynhawn Sadwrn. Dyw pobl ddim fel petaen nhw yn yr arfer o yfed gwin gartref ond pan fydd rhyw ddathliad arbennig. Ac er bod rafins ar y stryd liw nos fel ym mhob dinas arall, ychydig iawn ohonynt sy'n feddw dwll.



Dinas fechan yw Oslo, gyda rhyw 560,000 o driolion, ond mae'n cwmpasu'r Nordmarka, ardal wledig helaeth i'r gogledd lle mae'r llynnoedd, a'r coedwigoedd a'r bryniau, gyda digon o le i bawb. Mae'r un egwyddor yma eto – pawb yn cael crwydro lle y mynnant, a hel madarch a llysi duon bach yn eu tymor. Yn y gaeaf, bydd pawb allan ar y llethrau'n sgio (traws-gwlad gan amlaf). Mae rhwydwaith o lwybrau wedi'u goleuo fel y gall pobl sgio hyd berfeddion nos a dychwelyd i'r ddinas ar y trên olaf.

Mae'r holl bethau hyn – iechyd da, trafnidiaeth heb ei hail, adnoddau hamdden ysblennydd – yn deillio o economi ffyniannus iawn wedi'i seilio ar nwy ac olew. Mae llewyrch amlwg ar y ddinas, gydag adeiladau newydd o'r safon uchaf, blodau ar bob stryd, a hen adeiladau'n cael eu gwarchod yn ofalus. Er enghraifft, yn adeiladau yr H Block a ddifrodwyd yn rhannol gan ffrwydriad Brevik yn 2011, saif cyfres o bum murlun a gynlluniwyd gan Picasso: mae trafod brwd ynghylch tynged y gweithiau celf hyn a'r adeilad ei hun.

O blith yr adeiladau newydd, yr enwocaf heb os yw'r Tŷ Opera gogoneddus (2007) a gynlluniwyd gan y penseiri bydenwog Snøhetta; gwaith cynnar un o bartneriaid y cwmni, Robert Greenwood, yw Sterling House yn Eastgate, Aberystwyth, gyda llaw!



Mae cynlluniau ar droed i godi dau adeilad arall ger y lanfa: Amgueddfa Genedlaethol newydd sbon, a hefyd Oriel i ddal holl weithiau Edvard Munch, a anwyd union 150 mlynedd yn ôl. Dyna pam y mae ei lun enwocaf, *Y Waedd*, yn addurno cymaint o bethau eleni, gan gynnwys trenau cyflym!



Eglwysi? Nid ydynt yn niferus ond maen nhw'n fawr iawn. Y rhai yr wyf wedi'u mynychu yw'r rhai Lutheran – y Frognerkirke, a hefyd yr Eglwys Gadeiriol yng nghanol y ddinas a oedd dan ei sang y troeon y bûm i yno. Ychydig iawn o Gatholigion sydd yn y wlad. Y grefydd leiafrifol fwyaf yw Islam, ac y mae tua 44,000 o Foslemiaid o wahanol wledydd (Pakistan yn bennaf) yn byw yn y ddinas.

Ddoe, roedd gŵyl Mela ar y lanfa, cyfle i ddathlu bwyd, dawns, a cherddoriaeth y diwylliannau hynny. Y mae bron pawb yn gwybod am rywun a fu farw yn ymosodiad Anders Brevik yn 2011, ond ffieiddio wrth ei ddaliadau ef y mae'r mwyafrif llethol yma. Integreiddio mewnfudwyr yw nod y llywodraeth ac am y rheswm hwnnw, nid ydynt yn caniatáu sefydlu ysgolion ffydd ar wahân. Nid wyf yn gwybod llawer am achos y Sami yn y Gogledd, ond rwy'n casglu bod yr hen bolisi o 'norwyeiddio' yn cael ei ystyried gan lawer fel pennod warthus yn hanes y wlad.

Pam yr wyf innau yma? Wel, nid ar fy ngwyliau, gwaetha'r modd. Rwy'n gweithio'n galed ar broject sy'n ymwneud â rhyfel yn yr Oesoedd Canol – un o dri chynllun a noddir gan Academi Norwy eleni. Ar ein project ni mae aelodau o Iwerddon, yr Alban, yr Unol Daleithiau a'r Almaen yn ogystal â thri arbenigwr o Brifysgol Oslo. Cawsom gyfle gwych i weithio fel tîm, ac i ddysgu llawer oddi wrth ein gilydd. Cafwyd cwmni aelodau'r projectau eraill hefyd – grŵp mawr o fathemategwyr o bob rhan o'r byd, a thîm o haneswyr sydd wrthi'n paratoi cyfres o lyfrau ar Gyfansoddiad Eidsvoll 1814 sy'n cael ei ddathlu'r flwyddyn nesaf ac sy'n destun balchder cenedlaethol mawr. Drwy'r flwyddyn bu'r ymchwilwyr a'r staff yn cael cinio ysgafn gyda'i gilydd o gwmpas bord anferth – arfer cartrefol hyfryd sy'n gyffredin yng nghwmnïau a swyddfeydd y wlad.

Cefais bawb yn Oslo yn gyfeillgar iawn: maen nhw'n hyderus ac yn ddi-lol ond yn gynnes ac yn barod iawn eu cymwynas, fel y profais pan gododd un argyfwng. Gobeithio y byddaf yn cael cyfle i ddychwelyd, ac i weld rhannau eraill o'r wlad y tro nesaf. Rhaid cyfaddef mai cyfyng yw fy ngeirfa Norwyeg er imi fynychu dau gwrs nos elfennol. Byddaf yn gweld eisiau'r fjord, sŵn y llongau mawr yn cychwyn allan i Kiel a Kjopenhavn, dwndwr y trams, a'r gwmnïaeth lon. Ond bydd yn braf cael bod gartref hefyd, lle mae *cream slice* ar gael yn Slaters am 60p.

*Marged Haycock*
*Madog*

# *Efengyl Tangnefedd*

Er mwyn ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb tuag at gyd-ddyn a byd Duw, mae'n dda fod yna nifer o Suliau wedi'u nodi yn ystod Medi–Tachwedd i'n cynorthwyo i weddïo, ystyried, a thrafod er mwyn ein hysbrydoli i wasanaethu Tywysog Tangnefedd mewn byd rhyfelgar: 21 Medi – Diwrnod Heddwch y Byd; 24 Hydref – Dydd y Cenhedloedd Unedig; 3 Tachwedd – Cristnogion yn erbyn poenydio, a 10 Tachwedd – Sul y Cadoediad/Sul Coffáu Trueiniaid Rhyfel. Ni wn wrth ysgrifennu (2 Medi) beth fydd y sefyllfa yn Syria a'r Dwyrain Canol pan ddaw 'Gair o'r Garn' i'ch dwylo ond mae són am ymosodiad milwrol fydd yn gwaethygu cyflwr y trueiniaid yn achos gofid i bawb ohonom.

Ar 28 Awst, adeg cofio araith nodedig 'Mae gen i freuddwyd ...' Martin Luther King, teimlais yn drist fod yr Arlywydd Barack Obama (ni fyddai'n arlywydd ar wahân i ymgyrchoedd MLK) wrth gyfarch teulu arloeswr y Ffordd Ddi-drais y diwrnod hwnnw wrthi'n cynllunio bomio Syria. Does ond gobeithio a gweddïo y gwêl Obama ac arweinwyr eraill mai 'trwy garu nid trwy guro', chwedl George M. Ll. Davies, Heddychwr Mawr Cymru, yw'r ffordd i sicrhau heddwch a chyfiawnder i bobloedd daear. Soniodd Gwilym R. Jones wrthyf droeon am George Davies yn galw yn swyddfa'r *Faner*, Dinbych, yn gyson yn nyddiau'r Ail Ryfel Byd i rannu'i weledigaeth am Ffordd Tangnefedd. Ei sylw bob tro wrth ymadael oedd, 'Gwilym R., wela i ddim gobaith i'r byd ond yn yr hyn a fynegwyd gan Bantycelyn – "Ffordd nid oes o waredigaeth? Ond a agorwyd ar y pren".'

Am fod pobl wedi gwrthod 'Ffordd y Waredigaeth' y mae rhyfeloedd a pharatoi at ryfel yn bryder beunyddiol inni. Bob tro y meddyliaf am sylw George Davies byddaf yn cofio am bennill nodedig fy nghyfaill yn Llanuwchllyn, Ifan yr Henryd, mewn ymryson yn y Parc pan ofynnodd y Meuryn am bennill yn cynnwys y gair 'croes':

> Miliynau o groesau
> Yw cost rhyfel o hyd,
> Ond un Groes yn unig
> Ddaw â heddwch i'r byd.

Roedd gan Martin Luther King ddau lun ar wal ei stydi, un o Iesu Grist ac un o Mahatma Gandhi – 'Dangosodd Iesu'r ffordd inni, a dangosodd Gandhi fod y ffordd yn gweithio.' Pan oedd yn cymeradwyo'r ffordd ddi-drais mewn pregeth ac araith gofynnodd newyddiadurwr iddo un diwrnod beth wnâi e petai pawb yn America yn gwrthod y ffordd honno, a chael yr ateb: 'Fe ddaliwn i'w cherdded.'

Gwnaeth y diweddar T. J. Davies gymwynas fawr â ni wrth gyhoeddi cyfrol werthfawr ar Martin Luther King a'i genhadaeth ddi-drais, ym 1969. Rwy'n credu i'r llyfr gadarnhau safbwynt Dafydd Iwan, Emyr Llew, a Ffred Ffransis yn nyddiau cynnar Cymdeithas yr Iaith mai gweithredu'n ddi-drais a ddylem wrth ymgyrchu dros y Gymraeg.

Cyn i unrhyw un gael ei dderbyn i fudiad Martin Luther King roedd yn rhaid cytuno â'r Deg Gochymyn a luniodd; un o'r pwysicaf oedd: 'Rhaid ymatal rhag trais dwrn, trais tafod a thrais calon'. Oni ddylid diolch fod aelodau Cymdeithas yr Iaith wedi glynu wrth y ffordd ddi-drais am hanner canrif, a hynny'n aml yn wyneb casineb pobol (llawer ohonyn nhw yn bobol capel) ddylai ddangos mwy o ddealltwriaeth a chefnogaeth.

Ffordd yr addfwyn, nid ffordd y bwli, yw ffordd Iesu Grist. Wrth drafod yr addfwyn yn ei gyfrol ar y Gwynfydau dywed y diweddar Brifathro Tom Ellis Jones: 'Bydd yn glynu wrth ei argyhoeddiadau er i hynny olygu'r stanc ar dro. Concro trwy ddioddef y mae hwn. Dyna ystyr ei addfwynder, *Concro trwy beri i eraill ddioddef yw ffordd y byd, concro trwy ddioddef ei hunan yw ffordd yr addfwyn.* Ond y mae yn concro – "Canys hwy a etifeddant y ddaear". Ie, y ddaear – yn ogystal â'r nefoedd.'

Ar garreg fedd Siân a D. J. Williams ym mynwent capel magwraeth D.J. yn Rhydcymerau naddwyd geiriau olaf Llyfr Esther – geiriau am Mordecai, ond yn gwbl briodol wrth gofio'n ddiolchgar am lafur rhyfeddol D.J. dros Grist a Chymru: 'Yn gymeradwy ymysg lliaws ei frodyr, yn ceisio daioni i'w bobl, ac yn dywedyd am heddwch i'w holl hiliogaeth'. Wedi imi ledio emyn godidog Eifion Wyn ar derfyn oedfa yn Llanuwchllyn chwarter canrif yn ôl, daeth Arnold Japheth, oedd wedi dod atom gyda Gwladys ei wraig, o Lanaelhaearn, ataf a dweud fod Tom Nefyn Williams wedi cyfarch llond yr oriel o ferched a bechgyn ifanc yn nyddiau tywyll yr Ail Ryfel Byd: 'Lle bynnag y byddwch chi, cofiwch weddïo pennill olaf emyn Eifion Wyn bob nos cyn mynd i gysgu.' Dilynwn ninnau yr un awgrym:

> Efengyl tangnefedd, dos rhagot yn awr,
> a doed dy gyfiawnder o'r nefoedd i lawr,
> fel na byddo mwyach na dial na phoen
> na chariad at ryfel ond rhyfel yr Oen.

*W. J. Edwards*




Bedyddiwyd Maddison Leigh, merch fach Carwyn a Lyndsey Lloyd Jones, yng Nghapel y Garn gan y Gweinidog ar 31 Awst. Mae Maddie'n chwaer i Jordan a Benjamin, ac yn wyres i Lis Lloyd Jones. Pob dymuniad da i'r teulu.

## *Cristnogaeth21 yn y Morlan*

Bydd y grŵp yn defnyddio'r llyfryn *Byw'r Cwestiynau*, gan Vivian Jones, yn sail i drafod y cwestiynau sy'n codi wrth geisio deall a byw'r Efengyl yn ein cyfnod ni. Croeso cynnes i chi droi i mewn i'r Morlan am 7.30 p.m.

| | |
|---|---|
| 9 Hydref: | Beth yw Duw? |
| 13 Tachwedd: | Pwy yw Iesu? |
| 11 Rhagfyr: | Credu a Byw |

***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Owen Jenkins, Gwedd Ynys, Taliesin

*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **8 Rhagfyr:**

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com